**Sesiwn 2000-2001 Rhif 52**

# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 15 CHWEFROR 2001

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Atebwyd y **5** cwestiwn cyntaf.

**9.23am**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Atebwyd y **6** chwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 2.

**9.39am**

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Atebwyd y **7** cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 6.

**9.54am**

**Datganiad: Rhoddodd y Prif Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf am Corus**

**10.19am**

**Pwynt o Drefn**

William Graham ar Reol Sefydlog 2.4 a 6.3 (iii) - cyfrifoldebau Gweinidogion.

**10.21am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 36; Ymatal 7; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd egwyddor Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy’n peri pryder o dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001 a’r memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 (i) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 35; Ymatal 7; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001**

**10.50am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001, ac:
- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001**

**10.51am**

**Cymeradwyo Gorchymyn Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch 2000 (Cadarnhau) 2001**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.10 yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch 2000 (Cadarnhau) 2001, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Cymeradwywyd Gorchymyn Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch 2000 (Cadarnhau) 2001**

**10.56am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd I'r Gadair**

**Dadl ar yr Adroddiad ar Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn cymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol a gynhwysir yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

‘Adroddiad i Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad’, ac sydd i’w weld ar y fewnrwyd yn:

http://cynulliad/wcommittees/Equal%20Opportunities%20Committee/Meetings/2000/07-00(25%20Oct)/EOC-07-00(p.1)_w.htm

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar y camau a gymerwyd tuag at ei roi ar waith erbyn mis Gorffennaf 2001.

**11.16am**

Cynigiodd Arweinydd Ceidwadwyr Cymru gynnig trefniadol i ohirio'r ddadl er mwyn amddiffyn Dadl y Blaid Leiafrifol a'r Ddadl Fer. Cafwyd cefnogaeth 10 aelod i hyn.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 38

**Gwrthodwyd y cynnig a pharhaodd y ddadl**

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.38**

**Pwynt o Drefn: Mynegodd Janice Gregory** bryderon y gellid colli'r ddadl fer oherwydd diffyg amser. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n cymryd cyngor ac yn gwneud datganiad yn nes ymlaen.

**11.40am**

**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder ynghylch yr oedi mewn perthynas â delio â hawliadau am iawndal gan gyn-lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ar 23ain Ionawr 1998, ac mae'n galw ar Brif Weinidog Cymru i ddwyn pwysau sylweddol ar lywodraeth y DU i:

- Gyflogi mwy o staff meddygol a gweinyddol i gyflymu'r broses o brosesu'r hawliadau
- Rhoi'r gorau i adhawlio taliadau budd-dal o'r hawliadau a dalwyd, a hynny ar unwaith, ac
- I roi'r gorau i herio elfen colli pensiwn yr hawliadau iawndal.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru), Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Rhodder atalnod llawn ar ôl "Ionawr 1998" a rhodder i mewn

‘Mae’r newidiadau parhaus mewn cyfrifoldeb Gweinidogol am y mater hwn wedi ychwanegu at yr oedi’

cyn "ac mae’n galw ar"

**2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileer y cyfan ar ôl Llywodraeth y DU ac ychwaneger:

"i wneud y cyfan o fewn ei bwerau cyfreithiol i sicrhau bod y cyllid sydd eisoes wedi’i neilltuo ar gyfer talu iawndal i gyn-lowyr a’r rhai sy’n ddibynnol arnynt yn cael ei ddosbarthu’n ddiymdroi".

**Pleidleisiwyd:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 24; Ymatal 7; Yn erbyn 16; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd Gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**12.37pm**

**Dadl Fer: Janice Gregory (Ogwr); Troseddu:- Nid Argraff yn Unig**

**Cynigiodd Janice Gregory gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i gytuno i ohirio'i dadl fer. Cafwyd cefnogaeth 10 aelod i hyn.**

O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cynigiodd Janice Gregory gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio'i dadl fer.**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Gohiriwyd y ddadl fer.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.39pm**

**************

***Bydd y Cynulliad yn torri o 19 - 23 Chwefror 2001***

************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 27 Chwefror 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 13 CHWEFROR 2001

Education and Lifelong Learning Committee - Report to Plenary on the Special Education Needs (SEN) and Disability Bill (Dim copi Cymraeg ar gael)

Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol - Adroddiad I'r Cyfarfod Llawn ar y Mesur Cartrefi

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Adroddiad I'r Cyfarfod Llawn ar y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Mesur Comisiynydd Plant Cymru

Pwyllgor Datblygu Economaidd - Adroddiad I'r Cyfarfod Llawn ar y Mesur Diwygio Rheoliadol

## DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 9 CHWEFROR 2001

Water Resources Act 1991, Environment Act 1995, Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975 - Fisheries Byelaws (Dim copi Cymraeg ar gael)